Asiantaeth Datblygu Gwledig
Rural Development Agency

Polisi'r Iaith Gymraeg Cadwyn Clwyd
Cynllun Datblygu Gwledig Cymru 2007-2013

1. Amcanion

1.1 Diogelu a hyrwyddo'r iaith Gymraeg a'r defnydd ohoni yn ardal weithredol Cadwyn Clwyd.

1.2 Yn ei ymwneud, bydd Cadwyn Clwyd yn ymdrin a'r Gymraeg a'r Saesneg ar sail gyfartal. Bydd gan y ddwy iaith yr un statws a dilysrwydd.

1.3 Bydd Cadwyn Clwyd yn sicrhau bod pob aelod o staff naill ai'n ddwyieithog neu yn gallu mynegi ei hun yn hollol drwy gyfrwng y Gymraeg. Byddai hynny yn:

- cynnig i'r cyhoedd yr hawl i ddewis pa iaith i'w defnyddio wrth ddelio a'r sefydliad.
- cydnabod y gall aelodau'r cyhoedd fynegi eu barn a'u hanghenion yn well yn eu dewis iaith.
- Cydnabod fod galluogi'r cyhoedd i ddefnyddio eu dewis iaith yn fater o ymarfer da ac nid yn gonsesiwn.
- cydnabod y gall gwadu'r hawl i ddefnyddio eu dewis iaith roi aelodau'r cyhoedd mewn sefyllfa anfanteisiol.

2. Delio a'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg

2.1 Gohebiaeth Ysgrifenedig

2.1.1 Bydd croeso i'r cyhoedd ymdrin yn ysgrifenedig a Cadwyn Clwyd yn y Gymraeg neu yn y Saesneg. Bydd yr ohebiaeth yn cael ei hateb a'i llofnodi gan Cadwyn Clwyd yn iaith yr ohebiaeth wreiddiol.

2.1.2 Pan fo swyddog o fewn Cadwyn Clwyd yn dechrau gohebiaeth, dylid defnyddio dewis iaith y derbynnydd os yw honno'n wybyddus ac, os nad ydyw, dylid dechrau gohebiaeth ddwyieithog.

2.1.3 Pan fo swyddog yn dechrau gohebiaeth gyda chorff cyhoeddus arall o fewn Cymru dylid dechrau yr ohebiaeth honno yn ddwyieithog.

2.1.4 Bydd unrhyw gylchlythyrau neu lythyrau safonol a anfonir at y cyhoedd yn ddwyieithog.

2.2 Ffonio

2.2.1 Bydd croeso i bobl siarad Cymraeg neu Saesneg pan yn delio a Cadwyn Clwyd ar y ffôn.

2.2.2 Bydd y cyfarchiad cyntaf gan y switsfwrdd yn ddwyieithog.

2.3 Cyfarfodydd Cyhoeddus

2.3.1 Mewn cyfarfod cyhoeddus a drefnir gan Cadwyn Clwyd mae croeso i unrhyw un siarad Cymraeg neu Saesneg yn ôl ei ddymuniad. Defnyddir offer cyfieithu parhaol yn yr ystafelloedd hynny o eiddo Cadwyn Clwyd lle mae offer o'r fath, neu fel arall defnyddir offer cyfieithu symudol.

2.3.2 Hysbysir y cyhoedd mewn cyfarfodydd o'r fath y bydd offer cyfieithu ar gael ac y bydd croeso iddynt ddefnyddio eu dewis iaith.

3. Hysbysebu a Chyhoeddusrwydd

3.1.1 Pan fydd Cadwyn Clwyd yn rhoi cyhoeddusrwydd i'w wasanaethau a'i weithgareddau yng Nghymru trwy arddangosfeydd a chyflwyniadau, bydd yn gwneud hynny yn ddwyieithog. Pan gynhelir y gweithgareddau hyn gan Cadwyn Clwyd, neu yn enw Cadwyn Clwyd, bydd y deunydd a arddangosir ac unrhyw ddefnyddiau eraill, megis hysbysebion, posteri, llenyddiaeth gyhoeddusrwydd a thapiau fideo, yn gwbl ddwyieithog. Gall arddangosfeydd, fodd bynnag, gynnwys eitemau llenyddol nad ydynt ar gael yn y Gymraeg, neu sydd heb eu cynhyrchu yn ddwyieithog neu yn y Gymraeg.

3.1.2 Trefnir arddangosfeydd, stondinau gwybodaeth, cynadleddau a seminarau i'r cyhoedd o bryd i'w gilydd gan wasanaethau neu asiantaethau Cadwyn Clwyd. Bydd y cyflwyniad yn ddwyieithog, ond bydd y maint yn amrywio yn ôl yr ardal, natur yr arddangosfeydd a'r deunydd sydd ar gael. Bydd y deunydd Cymraeg yn cynyddu dros gyfnod o amser, gan alluogi Cadwyn Clwyd i ddarparu arddangosfeydd gyda mwy o Gymraeg ynddynt.

3.2 Hysbysebu Recriwtio Staff

3.2.1 Bydd pob hysbyseb recriwtio staff a gyhoeddir gan Cadwyn Clwyd yn ddwyieithog, ac eithrio:-

- hysbysebion a gyhoeddir mewn cylchgronau a phapurau Cymraeg a fydd yn ymddangos yn uniaith Gymraeg.

3.2.2 Bydd pob hysbyseb recriwtio dwyieithog yn rhai cwbl ddwyieithog a ffurf gyfochrog gyda'r testun Cymraeg ar y chwith. Lle na fydd hyn yn ymarferol, bydd un testun uwchben y llall gyda'r Gymraeg yn uchaf. Ym mhob achos fodd bynnag, bydd y testunau yn gyfartal o ran ffurf, maint, ansawdd, eglurder ac amlygrwydd.

4. Nawdd a grantiau

4.1 Bydd Cadwyn Clwyd yn annog cyfundrefnau neu gyrff gwirfoddol sy'n derbyn nawdd ariannol, neu ffi tanysgrifiad gan Cadwyn Clwyd i ddarparu gwasanaeth ddwyieithog i'r cyhoedd.

4.2 Fel yr uchod, gyda chyfundrefnau, cyrff neu unigolion bydd Cadwyn Clwyd yn cydweithio â hwy, neu gydag unrhyw bartneriaeth rhwng Cadwyn Clwyd ac unrhyw gyfundrefn, corff neu unigolyn, bydd y prosiectau neu bartneriaethau hynny yn darparu gwasanaethau dwyieithog i'r cyhoedd.

5. Staffio

Rhaid i bob aelod o staff Cadwyn Clwyd fod naill a'i yn rhugl yn y Gymraeg neu yn gallu cyfathrebu yn effeithiol trwy gyfrwng y Gymraeg fel bo unigolion yn y cymunedau gwledig yn gallu dewis pa iaith i gyfathrebu ynddi.